Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018

Amser: 13.15 – 16.04

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5039

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Jenny Rathbone AC
Tystion:	Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Mark Price, Llywodraeth Cymru Stephen Carr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Adrian Crompton – Archwilydd Cyffredinol Cymru Matthew Mortlock Dave Rees
Staff y Pwyllgor:	Meriel Singleton (Ail Glerc) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)

1 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Briff technegol

1.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio technegol ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru gan Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru; Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru; Stephan Carr, Rheolwr Rhaglen Cymunedau Diogelach, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a Mark Price, Cydgysylltydd Rhaglen Cymunedau Diogelach Llywodraeth Cymru.

2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Menter Twyll Genedlaethol 2016-18

2.1 Cafodd yr Aelodau eu briffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei adroddiad a chytunwyd i ystyried y materion a godwyd ymhellach, o bosibl fel rhan o ystyriaeth ehangach o drefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus.

3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor

3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC a Jack Sargeant AC.

4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

5 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (31 Hydref 2018)

5.1 Trafododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

Sylwadau i gloi

Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig i gyfarfod yn breifat ar 26 Tachwedd 2018.